

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Moeseg a Safonau

**Dyddiad y cyfarfod:** 17 Ionawr 2022

**Teitl:** Penodi Cynghorwyr Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau – Cynllunio ar gyfer Olyniaeth

**Diben yr adroddiad:**

### Cefndir

Yn unol â'r Rheoliadau, mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys y canlynol:

- x5 aelod lleyg annibynnol
- x2 aelod etholedig: Cynghorwyr Sir
- x2 aelod etholedig: Cynghorwyr Tref a Chymuned

Nodir y weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 (2001/2283).

Ar 29/6/17, cymeradwyodd y Cyngor benodiad yr Aelodau Etholedig (Cynrychiolwyr y Cyngorau Cymuned) canlynol, sef Julian Evans a Gill Hopley.

Bydd eu cyfnod yn y swydd yn dod i ben ar ddiwedd y tymor gweinyddol ym mis Mai 2022. Bydd angen penodi dau gynrychiolydd newydd yn dilyn etholiad mis Mai 2022.

Yn hanesyddol, mae Un Llais Cymru wedi darparu enwau dau gynghorydd i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

### Y sefyllfa bresennol

Cydnabyddir bod angen proses agored a theg i sicrhau bod pob Cynghorydd Tref a Chymuned yng Ngheredigion sy'n mynegi diddordeb yn gallu cael ei ystyried i fod yn aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Y bwriad, felly, yw cysylltu â phob clerc cyn etholiad mis Mai 2022, gan ofyn am enwau'r Cynghorwyr sy'n aelodau'r Cyngorau Tref a Chymuned ac sydd â diddordeb mewn cael eu hystyried ar gyfer rôl:

Aelodau Etholedig: Cynghorwyr Tref a Chymuned ar Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon erbyn dyddiad penodedig yn dilyn etholiad Mai 2022.

Bydd gwybodaeth ymsefydlu briodol a pherthnasol am y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cael ei darparu gan gynnwys y canlynol:

- y rôl a'i swyddogaethau
- y Cylch Gorchwyl
- gweledigaeth y Pwyllgor
- y cymwyseddau/sgiliau sydd eu hangen – Swydd Ddisgrifiad / Manyleb y Person

Pe digwydd i fwy na dau enw gael eu cyflwyno, bydd angen proses ddethol addas. Cynigir bod y Panel Dethol yn cynnwys y canlynol:

- Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion (yn ei absenoldeb yr Is-gadeirydd)
- Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau – aelod annibynnol llewg (yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd neu aelod annibynnol addas o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i gymryd ei le)
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau – aelod annibynnol llewg (yn ei absenoldeb aelod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i gymryd ei le)
- 1x Cynghorydd Sir sy'n aelod o'r Pwyllgor Moeseg (yn ei absenoldeb Cynghorydd Sir i gymryd ei le)
- 1x Cynghorydd Tref neu Gymuned sy'n aelod o'r Pwyllgor Moesau a Safonau (yn ei absenoldeb neu os bydd gwrthdaro o ran buddiant, cymerir ei le gan Gynghorydd Tref/Cymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru).

Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor.

**Argymhelliad/Argymhellion:** Bod y Pwyllgor Moeseg a Safonau'n cymeradwyo'r broses arfaethedig ar gyfer dethol Cynghorwyr Tref a Chymuned i fod ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau am y cyfnod gweinyddol rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2027

**Y rhesymau dros y penderfyniad:** Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau'n addas i'r diben a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac â'r Cyfansoddiad

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor  
**Swydd:** Swyddog Monitro  
**Dyddiad yr Adroddiad:** 20 Rhagfyr 2021  
**Acronymau:**